



Honiadau ac amheuon – beth y dylid ei wneud a beth na ddylid ei wneud

Beth y dylid ei wneud

- Peidio â chynhyrfu / dangos sioc
- Gwrando'n astud ac yn dawel fach mewn ffordd amyneddgar yn hytrach na holi cwestiynau
- Os ydych chi'n gofyn am fwy o wybodaeth, defnyddiwch DED: 'dywedwch wrthyf fi...' 'eglwurwch wrthyf fi...' 'disgrifiwch...' dylai hyn sicrhau nad ydych yn gofyn cwestiynau arweiniol
- Eu hannog i siarad a gwrando arnynt
- Peidio â barnu
- Credu'r unigolyn a dweud wrtho y byddwch yn trin hyn o ddifrif
- Gadael i'r unigolion gofio'r hyn a ddigwyddodd a'i ddisgrifio yn ei amser ei hun
- Tawelu meddwl yr unigolyn drwy ddweud ei fod yn iawn i ddweud wrthyf ac nad yw ar fai
- Bod yn glir ynghylch eich sefyllfa chi a'r camau y mae'n rhaid i chi eu cymryd fel dweud wrth yr unigolyn y bydd angen i chi drosglwyddo'r wybodaeth
- Nodi'r hyn a gaiff ei ddweud wrthyf yn ysgrifenedig, air am air os yn bosibl, gan gynnwys y dyddiad, amser, lleoliad a phwy sy'n bresennol cyn ei lofnodi a'i ddyddio
- Cadw unrhyw luniau ac ati y gallant eu tynnu
- Gwnewch yn siŵr i gadw unrhyw 'dystiolaeth', gan ei chadw hi'n ddiogel (e.e. dim golchi dillad na chael cawod) ac heb ei halogi
- Gofyn am eu caniatâd i'w gwybodaeth gael ei rhannu ag asiantaethau eraill os oes angen iddynt gael gwybod (fodd bynnag, ni allwch sicrhau cyfrinachedd)

- Cofnodi'r honiad cyn gynted â phosibl – hysbysu eich rheolwr llinell neu eich uwch reolwr, oni fyddwch yn amau eu bod ynghlwm wrth y digwyddiad dan sylw
- Rhoi manylion cyswllt i'r unigolyn fel y gall holi cwestiynau neu drafod materion (peidiwch â gadael i'r unigolyn ymdopi ar ei ben ei hun – mae angen iddo wybod gan bwy y gall gael gwybodaeth).

Beth na ddylid ei wneud

- Dangos sioc, ffeidd-dod neu anghrediniaeth
- Barnu
- Rhoi awgrymiadau iddynt neu ofyn cwestiynau manwl neu arweiniol
- Gwneud tybiaethau neu roi geiriau yn eu ceg.
- Addo na wnaiff ddigwydd eto.
- Torri ar eu traws neu eu stopio rhag cofio'r hyn a ddigwyddodd
- Gwneud iddynt ailadrodd yr hyn maent wedi'i ddweud
- Rhoi pwysau ar yr unigolyn i ddatgelu mwy
- Anwybyddu'r hyn a ddywedwyd wrthyf
- Addo cadw cyfrinachau neu wneud addewidion na allwch eu cyflawni
- Peidio â chysylltu â'r sawl a gaiff ei gyhuddo o gam-drin na'i wynebu
- Peidio â llygru na symud unrhyw dystiolaeth
- Archwilio'r unigolyn i gadarnhau ei anafiadau
- Hel eich pryderon o'ch meddwl neu boeni eich bod yn anghywir
- Trafod achosion unigol neu roi gwybodaeth am yr honiad i unrhyw un nad oes angen iddo wybod.